# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Dechrau'n Deg Bodhyfryd**

**Ysgol Bodhyfryd**
**Ffordd Bryncabanau**
**Wrecsam**
**LL13 7DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**11 Gorffennaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Dechrau'n Deg Bodhyfryd wedi ei gofrestru i gynnig gofal i hyd at 30 o blant o ddwy i dair oed. Ar hyn o bryd mae'r cylch ar agor am bum prynhawn yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol, ac mae'n rhan o'r fenter Dechrau'n Deg. Mae'r cylch wedi'i leoli mewn caban pwrpasol ar dir Ysgol Bodhyfryd, a defnyddir man awyr agored caeedig. Y personau cofrestredig yw Sion Aled Owen a Trefor Jones-Morris, a'r person â gofal yw Julie Morris. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth, ac mae'n gweithredu'r 'cynnig gweithredol', sy'n golygu bod modd i blant a rhieni gyfathrebu ag ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn am hyn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hyderus, yn hapus, yn gwrtais ac yn brysur gyda gweithgareddau priodol. Mae ymarferwyr cymwysedig yn garedig ac abl ac maen nhw'n gofalu am y plant yn unol â'r polisïau sydd ar waith. Mae'r ymarferwyr yn paratoi gweithgareddau sy'n helpu i annog pob agwedd ar ddatblygiad y plant. Mae'r amgylchedd yn ddelfrydol ar gyfer gofalu am blant ac mae'n cynnwys digon o deganau a gemau o ansawdd da. Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn drefnus.

### 2. Gwelliannau

Darperir cyfleoedd newydd a mwy ohonynt i'r plant oherwydd bod eitemau newydd wedi cael eu prynu ar gyfer chwarae dan do, megis byrddau teimlo ar gyfer y waliau, ac mae'r ardal awyr agored wedi cael ei gwella'n fawr – gosodwyd llithren fach a ffrâm adeiladu gyda llawr meddwl a glaswellt artiffisial.

Mae presenoldeb staff bellach yn cael ei gofnodi bob dydd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Canfuwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â ffeil ymarferydd. Nid oedd hyn yn effeithio ar ofal y plant; felly, rydym wedi dwyn hyn at sylw'r personau cofrestredig, ac mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â'r mater.

Gwnaethom ddau argymhelliad hefyd y gellir eu gweld yn Adran 5 o'r adroddiad hwn. Maent yn ymwneud â chofnodion yn ffeiliau'r ymarferwyr.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Caiff llesiant plant ei wella oherwydd mae ganddynt lais cryf ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus yng nghwmni'r ymarferwyr. Mae gan rai ohonynt berthynas glòs iawn gyda'r ymarferwyr – sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Maen nhw'n ddysgwyr hyderus ac yn datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i fod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae plant yn cymryd rhan yn hyderus gan eu bod yn cael eu hannog yn gyson i fynegi eu safbwyntiau a'u dewisiadau.

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda, ac roeddent yn cael eu hannog i ddewis ble'r oeddent eisiau chwarae. Roedd y plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol oherwydd eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael iddynt. Roedd yr ardaloedd chwarae dan do yn cynnwys toes chwarae, dŵr, tywod a phaentio, a bu i'r plant helpu eu hunain i'r ffedogau wrth chwarae mewn rhannau penodol. Yn ystod amser byrbryd, gallai'r plant ddewis rhwng dŵr neu laeth. Dywedodd un plentyn, "rwy'n hoffi dŵr," a chydnabuwyd a chadarnhawyd hyn yn fawr. Roedd pob plentyn a oedd angen gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn un, oherwydd roedd y rhan fwyaf o ddewisiadau yn cael eu cynnig yn y Gymraeg, megis "llaeth neu ddŵr."

Mae'r plant yn hyderus am eu bod yn cael dewisiadau,  gwrandewir arnynt ac maen nhw’n yn cael eu parchu.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd maen nhw'n gyfarwydd â'r ymarferwyr ac yn ymddiried ynddynt.

Roedd y plant yn hyderus ac roedd hi'n glir eu bod wedi meithrin perthynas agos â'r ymarferwyr. Rhoddwyd mwy o sylw i'r plant a oedd yn ei chael hi'n anodd gwahanu oddi wrth eu rhieni a bu iddynt ymgartrefu. Roedd y plant yn profi ymdeimlad o berthyn gan fod nifer o ddarnau o'u gwaith yn cael eu harddangos. Roedd y plant yn datblygu perthnasau ac yn gwneud ffrindiau, gan i ni weld y plant yn chwarae yn y tywod gyda'i gilydd y tu allan. Mae'r plant yn hyderus bod eu teimladau a'u casbethau yn cael eu hystyried, er enghraifft, mynegodd un plentyn nad oedd yn hoffi'r cracers yn ystod amser byrbryd, a chynigiwyd dewisiadau eraill iddo.

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol ac yn rhyngweithio'n dda.

Roedd y plant yn cydweithredu’n dda gyda’u cyfoedion ac oedolion. Roeddent yn dysgu rhannu, er enghraifft gyda'r offer yn y dŵr. Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda ac yn sensitif i deimladau ei gilydd ar y cyfan wrth drafod cymryd eu tro gyda'r offer megis y beiciau y tu allan. Roeddent yn hapus i helpu i dacluso’r teganau pan ofynnwyd iddynt gan yr ymarferwyr.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus ac yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion ac oedolion.

### 1.4 I ba raddau mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn ddiogel yn unol â'u cam datblygu.

Mae’r plant yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan lawn yn eu chwarae. Roeddent yn mwynhau dod o hyd i bryfed y tu allan. Roeddent yn cymryd rhan yn frwdfrydig gyda stori a adroddwyd yn dda dan arweiniad ymarferydd. Roedd y plant yn sgwrsio â'i gilydd ac â'r ymarferwyr a oedd yn annog datblygiad iaith. Roeddent hefyd yn dysgu am ddeunyddiau amrywiol wrth iddynt ludo eitemau megis plu ar bapur.

Mae'r plant yn mwynhau dysgu trwy chwarae rhydd a gweithgareddau a gynlluniwyd wedi'u harwain gan yr ymarferwyr.

### 1.5 Pa mor dda mae’r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau ac felly mae eu hyder i fod yn annibynnol yn cynyddu.

Mae gan blant amrywiaeth dda o brofiadau gan gynnwys chwarae hunangyfeiriedig sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol. Gwnaethom arsylwi ar blentyn yn "galw'r meddyg" yn ystod amser chwarae rhydd, a oedd yn eu hannog i ddefnyddio eu dychymyg ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch. Gwelsom blant yn dysgu sgiliau mynd ar gefn beic y tu allan. Roedd y plant yn helpu eu hunain i eitemau i chwarae â nhw ac roeddent yn mynd i'r toiled ar eu pennau eu hunain ac yn ymolchi eu dwylo gyda chymorth.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau sy'n eu galluogi i ddysgu sgiliau amrywiol a dechrau dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach trwy lynu at bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Maen nhw'n gymwys, gyda'r cymwysterau priodol ac wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Maen nhw'n rheoli ymddygiad y plant gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu i gefnogi datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae ymarferwyr caredig wedi derbyn yr hyfforddiant a'r wybodaeth angenrheidiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac maent yn rhoi'r rhain ar waith fel bod y plant yn elwa.

Roedd trafodaethau gyda'r ymarferwyr yn dangos eu bod yn gwybod am y weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Roedd pob un ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn ddiweddar, ac roedd rhifau cyswllt ar gyfer yr asiantaethau perthnasol ar gael. Roedd iechyd plant yn cael ei hybu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Cynigiwyd byrbryd o gracers a ffrwythau gan gynnwys dŵr neu laeth i'w yfed, ac roedd bwydlen o fyrbrydau wedi'i harddangos i rieni ei darllen. Roedd byrddau yn cael eu sychu'n lân cyn ac ar ôl amser byrbryd. Roedd y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl iddynt ddefnyddio'r toiled. Roedd yr holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd, ac roeddent yn paratoi ac yn gweini'r byrbrydau yn unol â'r canllawiau a argymhellir. Roedd yr holl ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac maent yn gwybod sut i drin mân anafiadau. Roedd cofnodion damweiniau wedi cael eu cwblhau'n briodol ac roedd y rhieni wedi llofnodi i gydnabod eu bod wedi derbyn y wybodaeth. Gwelsom gofnodion o ymarferion tân rheolaidd, a thrafodwyd y broses gyda'r person â gofal a oedd yn dangos y byddai'r plant yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Gwelsom fod hylendid y geg yn cael ei hyrwyddo drwy frwsio dannedd yn unol â'r rhaglen 'Cynllun Gwên.'

Mae'r ymarferwyr yn effeithiol wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach, gan ddefnyddio eu gwybodaeth yn llawn i sicrhau bod plant yn datblygu'n dda.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae ymarferwyr yn defnyddio technegau tynnu sylw a dulliau cadarnhaol eraill yn effeithiol er mwyn hybu rhyngweithiadau derbyniol a llawn parch.

Mae ymarferwyr yn deall datblygiad plant a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant – ac yn deall eu bod nhw eu hunain yn fodelau ymddygiad da. Roedd yr ymarferwyr yn dangos parch ac amynedd tuag at y plant. Roedd technegau tynnu sylw yn cael eu defnyddio'n effeithiol, er enghraifft, pan oedd mwy nag un plentyn eisiau'r un beic tair olwyn y tu allan. Roedd plant cwrtais yn dweud "os gwelwch yn dda" a "diolch" yn ystod amser byrbryd gan ddangos eu bod yn dysgu sut i ymwneud ag eraill.

Mae'r ymarferwyr yn hybu rhyngweithio cadarnhaol drwy ddefnyddio technegau y mae plant yn eu deall mewn modd cymwys.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae ymarferwyr gofalgar a medrus yn hybu dysgu a datblygiad y plant.

Roedd yr ymarferwyr yn ofalgar, yn fagwrol ac yn ymatebol i anghenion y plant. Roeddent yn rhyngweithio'n dda â grwpiau bach o blant ac unigolion, a bu iddynt ofyn cwestiynau iddynt yn ddigymell megis sylwi ar yr adar o'u hamgylch a phwyntio at yr hofrennydd. Rhoddwyd y geiriau Cymraeg hefyd i'r plant. Roedd ardaloedd chwarae wedi'u gosod yn barhaol a oedd yn annog datblygiad cyffredinol y plant, ac roedd modd chwarae yn yr awyr agored ym mhob math o dywydd oherwydd y canopi y tu allan. Roedd yr ardaloedd dan do yn cynnwys tywod, dŵr, toes chwarae, tynnu lluniau, adeiladu, llyfrau a gwisgo i fyny. Bu i'r plant chwarae am gryn amser y tu allan, ac roeddent yn gyfarwydd â'r ardaloedd amrywiol. Roedd yr ymarferwyr yn helpu'r plant i daflu a dal a chwarae gyda'r cylchau, a bu i un plentyn ganolbwyntio am gryn amser wrth wthio a thynnu cerbyd chwarae.

Gwelwyd eu bod yn cynllunio o amgylch themâu, ac roedd cynnydd y plant hefyd yn cael ei nodi gan gynnwys llyfryn "Dyma fi" a dogfennau pontio. Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hybu, oherwydd bod ymarferwyr yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac yn helpu'r plant i ddeall y geiriau perthnasol drwy ailadrodd yn briodol. Gwelsom hefyd fwrdd Cymreig a oedd yn dangos bod y plant yn dysgu am ddiwylliant Cymru. Roedd anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu, er enghraifft, roedd alergeddau yn hysbys ac roedd nodiadau atgoffa yn cael eu harddangos er mwyn osgoi bwydydd penodol.

Mae’r ymarferwyr yn hybu dysgu’r plant yn llwyddiannus trwy ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog â gweithgareddau diddorol ac maent yn diwallu anghenion y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a sicr ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn ymwybodol o sut i gadw plant yn ddiogel. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn amrywiol ac yn addas y tu mewn a'r tu allan, ac mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau'n dda.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn sicr.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau na chaniatawyd unrhyw fynediad heb awdurdod gan fod mynedfa oedd ar glo a chadwyd cofnod o'r ymwelwyr. Roedd yr holl ardaloedd y tu mewn a'r tu allan yn ddiogel. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig yn dangos bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o beth oedd y risgiau a sut i'w rheoli, ac roedd y rhain wedi'u hadolygu ym mis Mawrth 2018. Er enghraifft, ni chaniatawyd i'r plant fynd i mewn i ardal y gegin ac roedd pethau i amddiffyn bysedd ar yr holl ddrysau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o beryglon a sut i'w rheoli.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod digon o ofod chwarae y tu mewn a'r tu allan ac roedd yr amgylchedd yn llachar ac wedi'i addurno'n dda. Roedd mannau chwarae a dysgu wedi eu trefnu ar uchder y plant fel y gallent gael mynediad rhwydd atynt. Roedd cadeiriau a byrddau maint plant yn cael eu defnyddio yn ogystal â thoiledau a basnau addas i alluogi plant ifanc i'w defnyddio'n annibynnol. Roedd yr ardal awyr agored yn arbennig o addas ar gyfer plant dwy flwydd oed gyda man chwarae ar wahân i ddringo a seiclo - ac roedd cael esgidiau glaw a dillad diogelwch i fynd y tu allan yn sicrhau y gallai'r plant chwarae y tu allan ym mhob math o dywydd. Gwelsom luniau o bob plentyn ar eu pegiau - a oedd yn eu helpu i ddod o hyd i'w heiddo.

Mae'r arweinwyr yn llwyddiannus wrth sicrhau bod yr amgylchedd yn briodol ac yn addas i blant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn amrywiol, yn briodol i oedran y plant, yn lân ac o ansawdd da.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr holl deganau a gemau'n lân ac mewn cyflwr da. Roedd yr offer a'r dodrefn yn addas i oedrannau'r plant, gan gynnwys dodrefn pren cadarn,

mannau storio a meinciau isel y tu allan. Roedd teganau, lluniau a llyfrau ar amlddiwylliant ac amrywiaeth hefyd ar gael, gan gynnwys rhai o genhedloedd amrywiol.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb yr adnoddau a'r offer.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus, yn flaengar ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a chaiff gwelliannau eu gwneud gan ystyried pawb sy'n berthnasol. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau parhaus. Mae angen cwblhau rhai o ffeiliau'r ymarferwyr. Mae'r partneriaethau â rhieni ac eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg, yn effeithiol er lles y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir o'r gwasanaeth, sy'n cael ei rhannu â rhieni.

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau i hyrwyddo gwelliannau a chanlyniadau da ar gyfer y plant. Er enghraifft, gwelsom weithlu bodlon, cymwys a oedd wedi'i gefnogi'n dda. Gwelsom arferion cyson drwy'r gwasanaeth cyfan ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod y pwyllgor a'r Mudiad wedi bod yn gefnogol iawn. Mae'r arweinwyr bob amser wedi cydymffurfio ag unrhyw argymhellion a wnaed ac yn sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Ceir datganiad o ddiben eglur sy'n hawdd ei ddarllen. Roedd yr holl gofnodion wedi eu trefnu ac yn hawdd eu rheoli. Roedd sampl o ffurflenni cofrestru yn dangos bod gan yr ymarferwyr yr holl wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn darparu gofal da ar gyfer y plant.

Mae gan yr arweinyddiaeth ymdeimlad clir o ddiben, sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn darparu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso. Ceir adolygu a datblygu parhaus o'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwelliant parhaus. Roedd eu hadolygiad ansawdd gofal blynyddol yn cynnwys llawer o wybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys meysydd o arfer da a chynlluniau ar gyfer gwella megis gwahodd rhieni / gwarcheidwaid i fforwm agored gyda'r ymarferwyr.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod, a chaiff camau eu cymryd i wella arferion.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith ar gyfer rheoli ymarferwyr ac adnoddau.

Roedd yr arweinwyr yn cyflogi ymarferwyr sy'n gymwys ac yn wybodus am eu rolau. Roedd eu cymwysterau yn uwch na'r isafswm sy'n ofynnol. Gwnaethom arsylwi bod gan ymarferwyr wybodaeth gynhwysfawr am y plant, a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu

hanghenion yn brydlon, ac roedd ganddynt ffordd addfwyn a charedig o'u trin. Gwnaethom arolygu sampl o ffeiliau dau ymarferydd, ac roedd angen geirda ychwanegol ar un ohonynt a mwy o ddogfennau ar y llall. Cawsom hefyd sgyrsiau â’r ymarferwyr a gadarnhaodd eu bod yn cael profiad da ac yn mwynhau eu cyflogaeth. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau arfarniadau blynyddol ar gyfer yr ymarferwyr, a gwelwyd dogfennau i gynnig tystiolaeth o hyn – ond nid oedd dyddiad ar y rhan fwyaf ohonynt. Nid oedd rhifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y ddau ymarferydd, ac rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhain. Ni welsom fod presenoldeb yr ymarferwyr yn cael ei gofnodi – ac nid yw hyn yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gywiro yn ystod yr arolygiad drwy osod enwau'r ymarferwyr ar y gofrestr.

Mae gan yr arweinwyr systemau ar gyfer rheoli recriwtio, nodi anghenion hyfforddi a gweithio gydag ymarferwyr ond mae angen cwblhau un ffeil.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth, ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig gyda nhw a gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd yr ymarferwyr yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt, a gwelwyd eu bod yn dda am gyfnewid gwybodaeth pan oedd y rhieni yn casglu eu plant o'r gwasanaeth. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn cynnwys llythyrau achlysurol yn ogystal â'r wybodaeth gychwynnol ar adeg cofrestru. Gallai’r rhieni siarad â’r ymarferwyr bob dydd ac roedd ganddynt gyfle i gynnig eu safbwyntiau'n ysgrifenedig bob blwyddyn gan ddefnyddio holiadur. Gwnaethom arsylwi ar ymarferydd yn rhoi galwad i riant er mwyn rhoi sicrwydd iddo fod ei blentyn wedi ymgartrefu – sy'n arfer da. Gwnaethom siarad â rhiant a oedd yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir, a dywedodd wrthym fod iaith ei blentyn wedi gwella'n fawr ers dod. Mae ymarferwyr hefyd yn cael cyngor gan eraill, megis gweithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg ac ymwelwyr iechyd.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau gyda rhieni ac eraill o fudd i’r plant ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol iddyn nhw a’u teuluoedd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol;

**Rheoliadau Gofal Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, 28.**

Roedd hyn oherwydd nad oedd geirda, llun na disgrifiad swydd yn ffeil un o'r ymarferwyr. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio oherwydd ni wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn wedi effeithio ar lesiant y plant. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn.

Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- cofnodi rhifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer yr ymarferwyr;
- rhoi dyddiad ar ddogfennau arfarnu'r ymarferwyr.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 24 Mai 2018 rhwng 12.35pm a 3.30pm.

Gwnaethom y canlynol:

• archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;

• arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr;

• siarad â'r plant, un rhiant, a thri o'r ymarferwyr;

• archwilio'r mannau a oedd yn cael eu defnyddio;

• rhoi adborth ynghylch ein canfyddiadau i'r person cofrestredig dros y ffôn ar 7 Mehefin 2018.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Personau cofrestredig** | **Trefor Jones-Morris**<br>**Sion Aled Owen** |
| **Person â gofal** | **Julie Morris** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 3 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 12.15pm a 2.45pm, yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **10 Mehefin 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **24 Mai 2018 ac adborth dros y ffôn ar 7 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |